Gofynnwch am: Y Tîm Craffu

Llinell y Swyddfa Gra 01792 637256

e-bost: scrutiny@swansea.gov.uk

Dyddiad 04 October 2018

At:
Y Cyng. Ellen ap Gwynn
Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW
Mr Phil Roberts
Cyfarwyddwr Arweiniol ERW

Annwyl Gynghorydd ap Gwynn a Mr Roberts,

Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW – 10 Medi 2018

Daeth Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu ar Addysg pob un o'r chwe awdurdod lleol ynghyd ym Mhort Talbot ar 10 Medi, a hynny ar gyfer cyfarfod hanner blynyddol y Grŵp Cynghorwyr Craffu. Ysgrifennaf atoch i adlewyrchu safbwyntiau'r cyfarfod hwnnw. Hoffwn bwysleisio y bwriedir i'r pryderon a godir gennym yn y llythyr hwn, ynghyd â'r ceisiadau a wnawn, gael eu nodi mewn ysbryd cadarnhaol. Ein nod gyfunol yw cefnogi ERW i sicrhau'r gwelliannau y mae angen eu gwneud ar frys, yn ein barn ni.

Buom yn trafod gallu ERW i fodloni gofynion y Genhadaeth Genedlaethol (fel y'i hamlinellir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-21, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*). Roedd pawb yn unfrydol gytûn bod gwelliannau yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r nodau a fynegir yn y Genhadaeth Genedlaethol. Rydym yn pryderu'n arbennig fod y strwythurau gwella ysgolion rhanbarthol, sy'n hanfodol o ran gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus, yn ymddangos fel petaent yn annigonol neu'n absennol mewn nifer o ardaloedd. Mae'r amserlen ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm yn mynd rhagddi ar ras, ac ni allwn ganiatáu i'r rhanbarth gael ei adael ar ôl. Felly, rydym o'r farn y dylai mynd i'r afael â'r mater hwn fod yn flaenoriaeth uniongyrchol i'r Cyd-bwyllgor.

Mynegwyd pryder hefyd, a hynny gan bob aelod a oedd yn bresennol, ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed o ran y diwygiadau i ERW sydd wedi cael eu trafod yn fanwl yn flaenorol. Er ein bod yn cydnabod bod problemau wedi codi o ran gallu yn y sefydliad, byddem wedi disgwyl gweld dechrau cynllun ar gyfer gwella, o leiaf. Mae angen sicrhau bod amserlen a chynllun gweithredu ar gyfer newid ar waith, a hynny ar frys. Dylai hyn ddarparu eglurder o ran strwythur, gweithrediad a chyfeiriad ERW yn y dyfodol. Dylai hefyd fynd i'r afael â'r diffyg tryloywder presennol mewn perthynas â'r gyllideb a phenderfyniadau gweithredol eraill. Yn ein barn ni, mae'n bryd canolbwyntio unwaith eto ar swyddogaethau craidd y sefydliad, sef gwella ysgolion, a sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cael eu gweithredu mewn modd effeithiol.

Yn anffodus, mae'n rhaid i mi ddweud ein bod wedi ein siomi gan eich ymateb, dyddiedig 16 Gorffennaf 2018, i'n llythyr at y Cyd-bwyllgor, dyddiedig 16 Mawrth 2018. Ymddangosai hwn yn fwy o lythyr ateb dros dro nag ymateb gwirioneddol; nid oedd yn egluro'r sefyllfa yn well, ac nid oedd yn ymateb yn llawn i'n pryderon. Byddai hyn wedi bod yn dderbyniol pe byddai gohebiaeth bellach wedi dilyn, a oedd yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Yn anffodus, chwe mis yn ddiweddarach, nid ydym yn teimlo ein bod wedi symud ymlaen o gwbl.

Yn y cyd-destun hwn, ac yn lle llunio llythyr hirach yn nodi, fesul un, y materion a godwyd gan yr aelodau, penderfynodd y Grŵp Craffu estyn gwahoddiad i chi eich dau i gyfarfod â ni cyn diwedd mis Ionawr i drafod ein pryderon. Dylwn nodi nad ydym yn bwriadu i'r cyfarfod hwn fod yn fforwm edliw. Nid ydym yn dymuno rhoi'r bai ar neb am y diffyg cynnydd, dim ond sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei hunioni. Teimlwn yn gryf fod hyn yn hanfodol os ydym ni, eich Grŵp Craffu, am gyflawni ein dyletswyddau yn ddigonol: fel y nododd un o'r aelodau, “Ni ellir craffu ar ddiffyg gweithredu.” Bydd ein Swyddog Cymorth Craffu yn cysylltu â chi yn fuan i drefnu dyddiad.

Yr eiddoch yn gywir,



Y Cyng. Alex Thomas
Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW
Cllr.a.l.thomas@npt.gov.uk